

2013 Rhif. 405 (Cy. 49)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A465
(Cylchfan y Rhigos, Rhondda
Cynon Taf i Gylchfan Dowlais Top,
Merthyr Tudful) (Dileu
Cyfyngiadau) 2013**

Gwnaed 25 Chwefror 2013

Yn dod i rym 28 Chwefror 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid dileu cyfyngiadau cyflymder ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd, mewn mannau lle y cyfyngir ar y gefnffordd ar hyn o bryd gan oleuadau stryd.

Mae Gweinidogion Cymru felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 82(2), 83(1) a 124 o, a pharagraff 27 o Atodlen 9 i, Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1) ("Deddf 1984") ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

Enwi a chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Chwefror 2013. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2013.

2. Cyfarwyddir bod y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf 1984.

Dirymu

3. Drwy hyn mae Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2012(2) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Chwefror 2013

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; Diwygiwyd adran 82(2) ac adran 83(1) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraff 59(3) a 60(2). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a paragraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 2012/3249-Cy.324

YR ATODLEN

(i) y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 60 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan y Rhigos hyd at bwynt 65 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Hirwaun gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol Cylchfan Hirwaun.

(ii) y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 142 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd Croesbychan hyd at bwynt 59 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd Croesbychan, sef pellter o 202 o fetrau.

(iii) y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 488 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4276, Cyffordd Baverstocks hyd at bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd Lower Vaynor Road, gan gynnwys prif gerbyttffordd gylchredol Cylchfan Cefncoedycymer, sef pellter o 3,648 o fetrau.

(iv) y darn hwnnw o'r gefnffordd o'i chyffordd orllewinol â Chylchfan Dowlais Top hyd at bwynt 242 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Dowlais Top.

(v) y darn hwnnw o'r gefnffordd o'i chyffordd dwyreiniol â Chylchfan Dowlais ar yr A4060 hyd at bwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Dowlais ar yr A4060, sef pellter o 70 o fetrau.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465
(CYLCHFAN Y RHIGOS, RHONDDA CYNON
TAF I GYLCHFAN DOWLAIS TOP, MERTHYR
TUDFUL) (DILEU CYFYNGIADAU) 2013**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 82(2), 83(1) a 124 o, a pharagraff 27 o Atodlen 9 i, Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a bydd yn dod i rym ar 28 Chwefror 2013.

Effaith y Gorchymyn fydd dileu cyfyngiadau ar y darnau hynny o Gefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") rhwng Cylchfan y Rhigos ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chylchfan Dowlais Top, ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Mae'r Gorchymyn yn disodli Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2012 (O.S. 2012/3249 – Cy.324) oherwydd newidiadau i'r darnau o'r gefnffordd y mae'r cyfyngiadau i'w dileu arnynt.

Yn ystod cyfnod o chwe wythnos cychwyn ar 28 Chwefror 2013, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a phlantiau cysylltiedig yn ystod oriau swyddfa arferol, yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN neu yn Llyfrgell Hirwaun, Stryd Fawr, Hirwaun CF44 9SW neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os bydd unrhyw berson yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. bod ei fuddiannau wedi cael eu rhagfarnu'n sylweddol oherwydd methiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 28 Chwefror 2013, wneud cais i'r Uchel Lys am atal dros dro neu i ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Deddfwriaeth Ddrafft/ Offerynnau Statudol Drafft/ Gorchmynion Traffig Parhaol/2013).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

(i) y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 60 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan y Rhigos hyd at bwynt 65 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Hirwaun gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol Cylchfan Hirwaun.

(ii) y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 142 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd Croesbychan hyd at bwynt 59 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd Croesbychan, sef pellter o 202 o fetrau.

(iii) y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 488 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4276, Cyffordd Baverstocks hyd at bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd Lower Vaynor Road, gan gynnwys prif gerbyttffordd gylchredol Cylchfan Cefncoedycymer, sef pellter o 3,648 o fetrau.

(iv) y darn hwnnw o'r gefnffordd o'i chyffordd orllewinol â Chylchfan Dowlais Top hyd at bwynt 242 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Dowlais Top.

(v) y darn hwnnw o'r gefnffordd o'i chyffordd dwyreiniol â Chylchfan Dowlais ar yr A4060 hyd at bwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Dowlais ar yr A4060, sef pellter o 70 o fetrau.